

Rhyddid

Darlleniad: Ioan 8: 31-36

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, rydym am ddiolch i ti dy fod yn dy gariad wedi cofio amdanom, wedi cofio am ein hanghenion, yn dymhorol a thragwyddol. Diolch dy fod wedi anfon Iesu i'n byd, i arddangos dy gariad a'th dosturi tuag atom. Diolch fod bywyd yn enw yr Iesu, fod bywyd yn ei ddyfodiad, fod bywyd yn ei farwolaeth, fod bywyd yn ei atgyfodiad, bywyd sy'n parhau yn ddi-ddarfod, bywyd sy'n gyflawn, bywyd o ystyr a chyfeiriad a phwrpas.

Gwyddom, O! Arglwydd, nad oedd yn bosibl i ni adnabod y bywyd hwn, heb i Iesu ei egluro inni, heb i'r Ysbryd Glân oleuo ein calon a'n deall i'w adnabod. Yr oeddem yn ddall o Dad, ein clustiau yn fyddar i dy lais di, a ninnau wedi ein caethiwo yn ein natur, yn ein pechod, heb fedru ymryddhau i'th adnabod a'th ddilyn.

Diolch fod y cadwynau hyn wedi eu malu yn chwilfriw wrth groesbren Calfaria; diolch fod yr Arglwydd wedi torri y cadwynau a'm daliodd yn gaethwas cyhyd. Tra yr oeddem yn byw hebot, nid oedd y caethiwed hwn yn amlwg inni, nid oedd yn ein poeni; ond wedi i ti ddod heibio ein bywyd, wedi i'th Ysbryd ddechrau ei waith, rhaid oedd cael rhyddid, rhaid oedd cael bywyd.

Diolch fod y Mab yn rhyddhau'n wir y sawl sy'n dod ato am faddeuant a thrugaredd, a diolch mai rhyddid i wasanaethu dy enw mawr, ac nid penrhyddid yw hwn. Diolch am y rhyddid a gawn mewn gweddi, mewn addoliad, wrth ddarllen dy air, y rhyddid i dy glywed di yn siarad, i ddarganfod dy ewyllys, i dy garu a'th ddilyn, i ddyrchafu enw yr Arglwydd Iesu. Gweddiwn, O! Arglwydd, ar i'th Ysbryd i ryddhau unigolion, i ryddhau cynulleidfaoedd yn ein tir, fel bod ein haddoliad yn addoliad mewn ysbryd a gwirionedd.

Rydym, O! Arglwydd, wedi blino ar y rhyddid mae y byd yn ei gynnig - y rhyddid oedd yn tynhau'r maglau, y cadwynau, oedd yn peri i'n henaid fod yn fwyfwy anfodlon, y rhyddid oedd yn gwadu hawliau a rhyddid eraill; y pen-rhyddid sy'n manteisio ar wendid ac yn elwa ar draul ein cymydog; y rhyddid yr oeddem yn sôn amdano, pan oedd ein calon yn gwybod am gaethiwed, y bodlonrwydd yr oeddem yn ei gyhoeddi, pan oedd ein henaid yn anfodlon.

Gweddiwn, O! Arglwydd, dros fyd sy'n brwydro beunydd dros hawliau unigolion, pan mae'r rhain yn aml yn dod ar draul hawliau rhai eraill. Gweddiwn dros fyd lle mae rhieni yn medru pledio'u hangen am ryddid, wrth wadu hawl plentyn i gael ei eni. Dros fyd lle mae pobl yn pledio'u rhyddid i wledda, pan mae eraill yn newynu, eu rhyddid i ddefnyddio dy roddion di i fodloni chwant a hunanoldeb. Gweddiwn dros fyd lle cawn y gri fod rhyddid pobl i feddiannu arfau yn rhagori ar ryddid pobl a phlant i gael eu diogelu, i gael byw. Cydnabyddwn, O! Arglwydd, nad yw ein deall, nac ychwaith ein rheswm, yn rhydd o gaethiwed pechod, nad yw dy Air yn rhan o'n dirnadaeth nac ychwaith ein rheswm.

Diolch fod y Mab yn medru rhoi rhyddid i bawb a ddaw ato. Tyn ni, O! Arglwydd, at yr Iesu, fel y byddwn yn rhydd yn wir. Er mwyn ei enw. Amen.

Meirion Morris